## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at gwestiwn atodol i OAQ23789, a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 1 Ebrill 2003**

**At David Ian Jones:**

Wrth ateb eich cwestiwn llafar ar 1 Ebrill, addewais ysgrifennu atoch ynglŷn a'r ffaith y trosglwyddir deunydd niwclear yn wythnosol ar hyd arfordir y Gogledd o'r Wylfa i Sellafield.

Wynebwn fygythiad newydd gan grwpiau terfysgol yn sgîl 11 Medi, ac mae hyn yn amlwg wedi cynyddu pryderon ynghylch peryglon a breuder sefyllfa deunyddiau niwclear a sefydliadau niwclear yn gyffredinol. Dangosodd sgîl-effeithiau yr hyn a ddigwyddodd yn Chernobyl yn Ebrill 1986 pa mor ddinistriol ac ymestynnol y gall effeithiau digwyddiad niwclear fod.

O ganlyniad, gwnaethpwyd gwaith sylweddol i gryfhau ein gwydnwch y maes hwn. Cymeradwyais y gwaith hwn yn ffurfiol a gwneuthum gais am waith pellach i nodi unrhyw weithredoedd ychwanegol ar gyfer y tymor hirach. Gofynnais hefyd i gael fy hysbysu ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau pellach, yn arbennig o ran yr Wylfa a Thrawsfynydd.

Y mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn ymwybodol o'r ystyriaethau diogelwch wrth gludo deunydd niwclear ar y rheilffordd ac mae'n parhau i gymryd camau i leihau'r gwendidau. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr y gallwch werthfawrogi bod goblygiadau diogelwch y wybodaeth hon yn golygu na allaf rannu'r manylion â chi.